# PWYLLGOR ARCHWILIO 18-04-13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Huw Edwards, Aled Ll. Evans, Chris Hughes, John B. Hughes, Aeron Jones, Charles W. Jones, Sion W. Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell, Gethin G. Williams, R.J. Wright

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Derwyn Owen (Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Tom Ellis

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ionawr a 14 Chwefror 2013, fel rhai cywir.

## 3. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2013**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2013. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 31 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 3 o adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 6 o archwiliadau dilyniant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys pedwar adroddiad drafft sydd wedi eu rhyddhau a 15 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Llwyddo'n Lleol**

Gofynnodd aelod os yw'r adroddiad yn cynnwys faint o gwmniau sy'n wedi derbyn arian gan y Cyngor ac hefyd y rhai sydd wedi bod yn aflwyddiannus.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad yw hyn yn ran o'r archwiliad penodol hwn ond gellir rhoddi ystyriaeth i'r mater yn ystod y flwyddyn.

**Ansawdd Gohebiaeth**

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl i swyddogion y Cyngor pan yn ymateb i ohebiaethau, nodi eu cyfeirnod ar lythyrau o hyn ymlaen.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n cyfleu'r neges i'r swyddogion perthnasol.

**Gwiriadau DBS Staff a Telerau Contractau – Gwiriadau DBS**

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai DBS yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd bellach wedi disodli'r CRB.

Cyfeiriodd aelod at amheuon sydd wedi codi am gyfreithlondeb rhai agweddau o'r drefn o gynnal gwiriadau DBS, ac y dylai'r Cyngor roddi sylw priodol i'r mater.

Mewn perthynas â'r ddau archwiliad uchod a dderbyniodd categori barn C, hysbysodd yr Uwch Archwilio a Risg bod un archwiliad yn ymwneud â gwiriadau staff a'r llall yn ymwneud â gwiriadau ar ddarparwyr mae'r Cyngor yn contractio â hwy. Nododd y comisiynwyd Archwilio Mewnol i wneud gwaith ar drefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn sgîl yr adolygiad beirniadol a wnaed o Gyngor Sir Penfro. 'Roedd y ddau archwiliad hwn yn ran o raglen waith llawer ehangach sydd ar waith o fewn y Cyngor ac wedi gwneud llawer o gynnydd yn y misoedd diwethaf.

**Budd-daliadau Tai Dewisol**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ceisiadau am fudd-dâl tai, hysbysodd y Pennaeth Cyllid mai'r Cyngor sy'n gweinyddu'r budd-daliadau ar ran Adran Waith a Phensiynau Llywodraeth San Steffan. Cyfeiriodd at y newid a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013 a'r cwtogi o 14% neu 25% mewn budd-dâl taladwy oherwydd "tanfeddiannu" cartrefi 1,400 o deuluoedd yng Ngwynedd. O'r 1,400, mae tros 400 ohonynt wedi ysgrifennu i'r Cyngor yn gwneud cais am daliad tai dewisol gan y Cyngor er mwyn ail-gyflenwi eu budd-dâl. Cadarnhaodd bod y swyddogion perthnasol yn ymdrin â'r ceisiadau yn unol â'r ffactorau y cytunwyd gan Gabinet y Cyngor ar 9 Ebrill 2013, pryd ystyriwyd adroddiad ar ddiwygio lles a phenderfynwyd ychwanegu £150,000 at y gronfa Taliadau Tai Dewisol ar gyfer cefnogi teuluoedd yn 2013/14. Eglurodd y Pennaeth Cyllid sut y rhoddir blaenoriaeth i gynorthwyo achosion eithriadol.

**System Treth Cyngor – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed trethu tai gwag, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y newidiwyd y ddeddfwriaeth yn ystod y blynyddoedd

diwethaf. Nododd y cyflwynwyd adroddiad ar eiddo gwag i'r Cyngor llawn yn Rhagfyr 2012 pryd y penderfynwyd codi treth llawn ar eiddo gwag er mwyn annog y perchenogion i gael yr eiddo yn ôl i ddefnydd cyn gynted â phosibl.

Cyfeiriodd aelod bod rhai eiddo sy'n cael eu gosod yn talu treth busnes a gofynnodd a fyddai'n bosibl cael rhestr o'r eiddo hyn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid nad yw'n briodol i rannu gwybodaeth am gyfrifon unigol pobl ond bod y rhestr Treth Cyngor/Treth Annomestig ar gael drwy'r Swyddfa Prisio. Nododd yr ysgrifenwyd at Lywodraeth Cymru sawl gwaith ynglyn â hyn er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli tai domestig sy'n cael eu troi'n dai gwyliau a disgwylir ateb i'r llythyr diwethaf anfonwyd ar 25 Chwefror 2013.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau drafod tai gwag. Awgrymwyd i'r aelod dynnu sylw Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau at y mater.

**Cleient Tenau**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y term "cleient tenau", hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai "Cleient Tenau" yw'r enw a roddir ar system gyfrifiadurol lle nad oes gyriant caled ("hard drive") ar y peiriant ar ben desg, a bod y meddalwedd angenrheidiol yn eistedd ar weinyddwr.

**Rheoli Newid Systemau Technoleg Gwybodaeth**

Datganodd aelod bryder bod yr archwiliad hwn wedi derbyn categori barn C.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y gosodir trefn gan Uwch Reolwyr o fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ond nad oedd yn cael ei weithredu gan staff o fewn y gwasanaeth. 'Roedd angen anogaeth i geisio gwella'r sefyllfa.

**Prosesu Data Cyflenwyr Ynni**

Tynnwyd sylw gan aelod bod yr archwiliad hwn wedi derbyn categori barn C.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y bydd yn ofynnol maes o law i osod "Automatic Meter Readers" ym mhob adeilad. Nododd bod llawer o ddefnydd o amcangyfrifon ar hyn o bryd, a bod angen pwyso ar reolwyr safle i ddarparu darlleniadau i'r cyflenwyr ynni yn gofnodol i sicrhau cywirdeb data ac i alluogi swyddogion cadwraeth ynni i adnabod eithriadau'n gynharach. Mewn perthynas â'r gweithdrefnau, nododd bod llawer o amser yn cael ei dreulio i fewnbynnu'r data i'r system ac oherwydd hynny nid oes amser yn weddill i gynnal ymarferion adnabod ac ymchwilio eithriadau digonol. Cyfeiriodd at yr angen i'r Uned Eiddo werthuso'r costau a'r buddiannau o archebu modiwl i'r system "Stark" sy'n galluogi mewnbynnu data a dderbyniwyd gan gyflenwyr ynni yn awtomatig i'r system.

Nododd y swyddog, mewn ymateb i gwestiwn pellach gan yr aelod, bod yna Swyddogion Ynni o fewn yr Uned Eiddo sy'n ystyried contractau a chostau ynni. Byddai'n bosibl ystyried hyn fel rhan o'r gwaith dilyniant.

**Cyfarpar gan Gyn-Aelodau**

'Roedd aelod o'r farn y dylid cynnig eitemau o gyfarpar technoleg gwybodaeth megis cliniaduron a ffonau symudol i gyn-aelodau yn hytrach na mynd i'r gost o geisio eu casglu ac yna eu dinistrio ar ôl cyfnod o amser.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod hyn yn opsiwn ond 'roedd yna risgiau ynghlwm â hynny fyddai angen ystyriaeth. Nododd na chanfuwyd unrhyw golledion/twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth gan bod gwerth y cyfarpar wedi dibrisio. I'r dyfodol, 'roedd angen gwell trefniadau cofnodi mewn lle.

**Cyflogau a Threuliau Aelodau**

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl iddynt gyflwyno eu ceisiadau am dreuliau a.y ar lein.

Nododd aelod nad yw darlleniadau cloc yn cael ei gynnwys ar y ffurflen costau teithio erbyn hyn

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod y drefn hawlio costau teithio a.y. ar gyfer aelodau a swyddogion yn fater y gellir ei ddiweddaru. Rhoddir ystyriaeth maes o law i gael trefn hunanwasanaeth ar-lein ar gyfer hawlio treuliau fel rhan o system adnoddau dynol a chyflogau newydd.

**Cyffredinol**

Awgrymodd aelod y dylid sefydlu Gweithgor i ystyried yr archwiliadau sy'n derbyn categori barn C.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ionawr i 31 Mawrth 2013 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**
**b) Sefydlu'r Gweithgor canlynol i ystyried yr archwiliadau dderbyniodd gategori barn C –**
**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cynghorwyr Aled Ll. Evans, Sion W. Jones ac Angela Russell, ond bod holl aelodau'r pwyllgor i gael cyfle i wasanaethu ar y Gweithgor i'r dyfodol ac i'w dewis ar drefn rota.**

**4 . ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012/13**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13. Eglurodd bod dyletswydd arno fel Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yr awdurdod. Ychwanegodd nad oes modd iddo gadarnhau sicrwydd llwyr wrth leisio barn, ac mai'r mwyaf y gallai'r gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol. Ar sail y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2012/13, 'roedd y swyddog yn fodlon bod gan Gyngor Gwynedd **"fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roddi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y**

**flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau bod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol. Er hyn, mae angen datblygu ymhellach y prosesau ffurfiol o safbwynt cofnodi risgiau yn unedau busnes y Cyngor".** Bwriedir paratoi cynllun gweithredu er mwyn gwella'r trefniadau rheoli risg yma a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Gorffennaf 2013.

Er mwyn rhoddi barn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth mewnol, hysbysodd y swyddog iddo ystyried y canlynol –
a) Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
b) Lle canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu derbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
c) Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad blynyddol.

Mewn perthynas â'r gwaith archwilio, hysbysodd y cynhwyswyd 100 darn o waith yng nghynllun archwilio addasiedig terfynol 2012/13. Cwblhawyd 95 o'r aseiniadau hyn, sy'n cynrychioli 95% o'r cynllun ('roedd y perfformiad cyfatebol yn 2011/12 yn 99.12%) yn erbyn targed o 95%. Rhoddodd fanylion am yr archwiliadau o gynllun 2012/13 lle na gafodd yr adroddiad ei ryddhau'n derfynol erbyn 31 Mawrth 2013.

Tynnodd y swyddog sylw at y modd y caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio. O'r adroddiadau perthnasol i gynllun 2012/13, derbyniodd 82.9% farn "A" neu "B" sydd ychydig yn uwch na'r ffigur cyfatebol o 81.5% yn 2011/12. Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad farn "CH".

Nododd y swyddog y rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 9 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013 a derbyniodd pob un o'r archwiliadau hyn farn "derbyniol" neu "rhagorol" ar wahân i un archwiliad a dderbyniodd farn "anfoddhaol". 'Roedd hyn yn awgrymu bod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

Cyfeiriodd y swyddog at y dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau Archwilio Mewnol yn ystod 2012/13. Nododd y gwelwyd lleihad yn nghyfanswm nifer y dyddiau a dreuliwyd ar waith cynhyrchiol i'r Cyngor o 1,821 diwrnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012 i 1,571 diwrnod am yr un cyfnod yn 2012/13 ond 'roedd hyn wedi ei gynllunio ar ei gyfer. Bu lleihad sylweddol yn nifer y dyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio i gyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol – i lawr o 133 yn 2011/12 i 39 yn 2012/13. Cafwyd lleihad bychan yn y nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch, o 62 yn 2011/12 i 55 yn 2012/13.

Cyflwynwyd canlyniadau dangosyddion perfformiad 2012/13 gan nodi y llwyddwyd i gyfarfod â'r cyfan o'r targedau.

O ystyried cydymffurfiaeth â'r côd ymarfer, nododd Swyddfa Archwilio Cymru yng Ngorffennaf 2012 bod gan y Cyngor wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau'r Côd Ymarfer. 'Roedd Archwilio Mewnol yn rhannol yn cyrraedd y safon Annibyniaeth oherwydd cyfrifoldebau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ychwanegol i Archwilio Mewnol. Adroddwyd ar hyn i'r Pwyllgor Archwilio ers sawl blwyddyn.

Nododd y swyddog y cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2013/14 i'r pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2013 ac 'roedd bron yn derfynol erbyn hyn. Tynnodd sylw y daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli'r Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Nid oes disgwyl newidiadau arwyddocaol i ymarfer gwaith Archwilio Mewnol yn sgîl hyn, ond bydd y gwasanaeth yn parhau i asesu ei gydymffurfiaeth â'r safonau newydd yn ystod y flwyddyn ac 'roedd holl staff Archwilio Mewnol wedi cymryd rhan mewn diwrnod hunanasesu yn erbyn y safonau newydd y ddiweddar. Rhoddodd fanylion am fesuryddion perfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig am 2012/13 a llongyfarch yr Adain Archwilio Mewnol am eu gwaith.**

**5. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2012/13 O GYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Arweinydd Ymgysylltu. Paratowyd yr amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Nododd ei bod yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y Cyngor, gan fodloni ei hun –
a) Bod y cyfrifon yn rhoddi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor.
b) Bod y cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â rheoliadau dan Adran 39 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005).
c) Bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt.
ch) Bod arferion priodol wedi eu dilyn wrth lunio'r cyfrifon.
d) Bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
At hynny, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig ardystio bod yr archwiliad wedi ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nodwyd, wrth gynllunio eu gwaith, mae'n rhaid i archwilwyr nodi risgiau sylweddol sy'n ymwneud â chywirdeb a dibynadwyedd y datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt. Rhoddwyd manylion am y risgiau a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â hwy.

Tynnodd sylw at y ffi archwilio ariannol o £168,036 ynghyd â TAW ar gyfer 2012/13 gan nodi bod y ffi hwn ar yr un lefel ag yn 2011/12.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i'r Arweinydd Ymgysylltu am yr adroddiad. Nododd bod y risgiau adroddwyd arnynt yn yr archwiliad o gyfrifon 2011/12, megis cysoni banc ar gyfer incwm, wedi derbyn sylw priodol yn ystod 2012/13. Cadarnhaodd bod yr Adran Gyllid yn cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfrifon y Cyngor ac fe'i cyflwynir mewn ffurf drafft i'r pwyllgor hwn ar 18 Gorffennaf 2013.

Tynnodd aelod sylw at y posibilrwydd o ostwng y ffi archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gofynnodd aelod am wybodaeth ynglyn â nifer yr oriau a dreulir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar yr archwiliad.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Arweinydd Ymgysylltu na ddatgelir nifer yr oriau a dreulir ar yr archwiliad ond yn hytrach fe osodir y ffi ar gyfer rhoddi barn ar y cyfrifon. Nododd bod y ffi a bennwyd ar sail risg, ac oherwydd y risg isel bod y ffi ar gyfer y Cyngor hwn yn un o'r rhai isaf yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**6. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2012/13 O GRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol yn amlinellu ei archwiliad ariannol blynyddol o'r Cyngor fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Nododd ei bod yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig ystyried ac ardystio cyfrifon y Gronfa Bensiwn gan fodloni ei hun –

a) Bod y cyfrifon yn rhoddi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn.
b) Bod y cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â rheoliadau dan Adran 39 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005).
c) Bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt.
ch) Bod arferion priodol wedi eu dilyn wrth lunio'r cyfrifon.
At hynny, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig ardystio bod yr archwiliad wedi ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Er mwyn cyhoeddi'r adroddiad archwilio ar gyfrifon y Gronfa Bensiwn, mae'n ofynnol sicrhau y nodir pob risg weithredol ac ariannol sylweddol a allai effeithio ar yr archwiliad a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â hwy.

Tynnodd sylw at y ffi archwilio ariannol o £25,095 ynghyd a TAW ar gyfer 2012/13 gan nodi bod y ffi hwn ar yr un lefel ag yn 2011/12.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i'r Archwiliwr Allanol am yr adroddiad. Nododd bod y risgiau adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru arnynt yn yr archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn am 2011/12, megis egluro'r newid yng ngwerth buddsoddiadau, wedi derbyn sylw priodol yn ystod 2012/13. Mewn ymateb i sylw gan aelod am y ffi archwilio, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod gwerth Cronfa Bensiwn Gwynedd tros £1 biliwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.00